



Cardiff Students' Union
Undeb Myfyrwyr Caerdydd

Defnydd y Brifysgol o ddiidyniadau streic

Annwyl Is-Ganghellor,

Mae aelodau'r Undeb Prifysgolion a Cholegau (UCU) wedi cael eu gorfodi i gymryd rhan mewn gweithredu diwydiannol i ddiogelu eu cyflog a'u hamodau, gyda dwysáu sylweddol iawn wedi'i gyhoeddi ar gyfer Chwefror a Mawrth. Yn y gorffennol, mae Prifysgol Caerdydd wedi cadw didyniadau cyflog o staff streicio drostynt eu hunain yn hytrach na'u talu allan i fyfyrwyr a ddiodefodd yr amhariad i'w haddysg tra'n gorfod talu ffioedd llawn. Ni all hyn barhau, yn enwedig gyda graddfa'r amharu a ddisgwylir dros y misoedd nesaf.

Yn ogystal, mae'r argyfwng costau byw wedi cael effaith ddifrifol ar fyfyrwyr. Yn ôl un arolwg diweddar a gomisiynwyd gan UUK, mae dros dri chwarter y myfyrwyr bellach yn meddwl y *gallai costau cynyddol effeithio ar ba mor dda y maent yn gwneud yn eu hastudiaethau*, er enghraifft. Yn y cyd-destun hwn, mae dau beth yn dilyn:

- 1) ni all myfyrwyr fforddio talu'r brifysgol mwyach heb dderbyn budd llawn addysg heb ei tharfu ami, a
- 2) mae'r argyfwng costau byw bellach yn ei gwneud hi'n fater brys i'r brifysgol ddechrau taliadau i fyfyrwyr ar unwaith - mae arian a neilltuwyd gan Brifysgol Caerdydd drwy ddiidyniadau streic yn sylweddol ac ar gael i'w dalu.

Am y rhesymau hyn, mae Undeb Myfyrwyr Caerdydd, gyda chefnogaeth UCU Caerdydd, yn gofyn ar frys i daliadau i fyfyrwyr yr amharwyd ar eu cyrsiau yn ystod yr anghydfod diwydiannol presennol (ers Tachwedd 2022) gael eu gwneud yn ddi-oed a bod y brifysgol yn rhoi cyfrif tryloyw dros sut y defnyddir yr arian a neilltuwyd drwy ddiidyniadau streic staff.

Edrychwn ymlaen ar frys at eich ymateb.

Cofion cynnes,

Tîm y Swyddogion Sabothol 22/23, Undeb Myfyrwyr Caerdydd

Noder: bydd y llythyr hwn ar gael i'r cyhoedd er mwyn sicrhau bod ein haelodau'n ymwybodol bod camau'n cael eu cymryd.



The heart of Cardiff student life
Calon bywyd myfyrwyr Caerdydd